YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

14 Mawrth 2025

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Cydymdeimladau dwys:** Gyda thristwch rhyfeddol y clywsom am golli Mr Dylan Hughes, Pennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Nant Caerau dros wyliau'r hanner tymor. Bu Mr Hughes yn athro yn Ysgol Bro Eirwg ac Ysgol Pen y Garth cyn ei benodi yn Ddirprwy yn Ysgol Pwll Coch ac yna fel Pennaeth cyntaf Ysgol Nant Caerau nôl ym Medi 2010. Roedd yn arweinydd eithriadol ac uchel ei barch, oedd wedi ymroi'n gyfan gwbl i les a chynnydd disgyblion a chymuned Nant Caerau, heb sôn am fod yn Bennaeth arloesol a dylanwadol o fewn y ddinas ac o fewn addysg cyfrwng Cymraeg. Anfonwn ein cydymdeimlad mwyaf didwyll at ei deulu a'r gymuned ehangach sy'n teimlo ei golled yn arbennig o galed.

**HMS:** Mae **Dydd Gwener, Mawrth 21 yn ddiwrnod HMS yn yr ysgol,** felly does dim ysgol i ddisgyblion.

**Brechiad HPV i Flwyddyn 8:** Ar **20 Mawrth** bydd Sesiwn Brechiad HPV i BAWB yn Bl8. Diolch i'r rhai hynny ohonoch sydd eisoes wedi cyflwyno eich ffurflen gydsynio electronig i'ch plentyn dderbyn y brechiad. Os nad ydych wedi gwneud hynny eto, y dyddiad olaf i gyflwyno'r ffurflen gydsynio yw **16 Mawrth** gan ddilyn y ddolen isod. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'ch plentyn eich bod wedi / ddim yn rhoi caniatâd.
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=uChWuyjjgkCoVkM8ntyProwc0tRo7SlFodPDo7y1M5RUOTEyTEdKT0ozOERWSEVXSU1aNTdIREo2NS4u




**Diwrnod Rhyngwladol y Merched**
**#Merchedymôr**

**Trefniadau Eisteddfod Sir yr Urdd:** Cynhelir Eisteddfod Sir yr Urdd eleni ar **28 Mawrth** yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd. Cynhelir holl gystadlaethau y blynyddoedd iau yn y bore a holl gystadlaethau y disgyblion hŷn yn y prynhawn. Mae llythyr wedi ei anfon ar Classcharts i'r disgyblion hynny sy'n cystadlu yn unigol ac/neu mewn parti neu gôr gyda rhagor o fanylion. **Os ydy'ch plentyn yn cystadlu yn unigol cynhelir rhagbrofion ar 26 Mawrth yn Ysgol Glantaf am 4pm. Bydd yr Urdd yn anfon trefn y cystadlu a manylion atom maes o law.** Bydd Eisteddfod Sir y cystadlaethau Theatr ar **1 Ebrill** yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

**Gwisg Ysgol:** Mae'r holl ddisgyblion yn ymwybodol o reolau a safonau gwisg Ysgol Glantaf – mae'r rheolau i'w gweld yn glir ar wefan yr ysgol Gwisg Ysgol | Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac yn Llyfr Cyswllt y disgyblion. Yn anffodus, mae nifer cynyddol o ddisgyblion wedi dechrau anwybyddu'r rheolau hyn. Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth i sicrhau nad yw eich plentyn yn gwyro oddi wrth ein safonau –

- DIM trowsus du; DIM steil jîns; DIM leggings.
- DIM sanau gwyn – sanau glas neu ddu plaen yn unig.
- DIM Hwdis o unrhyw fath.
- Gwallt mewn steil sy'n dderbyniol ar gyfer ysgol; DIM lliw annaturiol, llinellau na phatrymau.
- Un pâr o glust dlysau – styden blaen, a honno yn y glust, DIM hŵps.
- DIM gemwaith o gwbl; DIM mwclis / tsiaen / breichled / tlws yn y trwyn.
- Colur yn GYNNIL a DIM lliw ewinedd / estyniad ewinedd / amrannau ffug.

Os bydd disgybl yn parhau i dorri'r rheolau hyn byddwn yn cosbi yn unol â pholisi'r ysgol.

**Dyfais un i un Bl7:** Mae'r ysgol yn falch o nodi y byddwn yn parhau gyda'n cynllun i gynnig dyfais electronig chromelyfr i bob disgybl Bl7 presennol (Bl8 Medi 2025) erbyn Rhagfyr 2025. Oherwydd cyfyngiadau cyllidol, mae'r cynllun hwn yn dod i ben o fewn Cyngor Sir Caerdydd, ond yma yng Nglantaf rydym yn gobeithio gall y cynllun barhau gyda eich cymorth chi fel rhieni. Bydd llythyr i rieni Bl7 yn ystod yr wythnosau nesaf a bydd cyfarfod arbennig arlein i rieni Bl7 yn fuan i egluro'r cynllun newydd.



**Tîm Gymnasteg Dan 13**
**Pencampwyr Ysgolion Prydain**

**Opsiynau Blwyddyn 8:** Cynhelir Noson Opsiynau i rieni a disgyblion Bl8 yn rhithiol (Teams) ar **24 Mawrth** ble byddwn yn trafod y dewisiadau sydd ar gael i'r disgyblion ar gyfer mis Medi. Hefyd, yn ddilyniant o'r cyfarfod rhithiol ar y nos Lun, cynhelir Noson Cyflwyniadau Opsiynau (5.30PM - 7.30PM) ar **27 Mawrth** yn fyw yn yr ysgol, lle byddwch yn gallu ymweld ag adrannau a derbyn cyflwyniad am bynciau gwahanol sydd yn cael eu cynnig yng nghwricwlwm Bl9. Yn dilyn hyn, cynhelir Noson Rhieni Bl8 yn yr ysgol ar **3 Ebrill**. Bydd hon yn noson i dderbyn adborth am gynnydd academaidd eich plentyn y flwyddyn academaidd hon.

**Adroddiadau ac Arholiadau:** Bydd adroddiadau llawn Bl11 yn cael eu rhannu yr wythnos nesaf yn ystod cyfnod cofrestru, a bydd adroddiadau interim pob disgybl o flwyddyn 7 – 13 yn cael eu rhannu gyda chi a'r disgyblion drwy ebost yn ystod wythnos **31 Mawrth**. Mae ffug-arholiadau Bl10 wedi dod i ben a bydd nifer o arholiadau ymarferol TGAU a Safon Uwch cyn gwyliau'r Pasg. Bydd pob disgybl yn derbyn eu hamserlen arholiadau unigol yn fuan. Gwiriwch y rhain yn ofalus, gan eu bod yn cynnwys yr holl gofrestriadau arholiad ar gyfer y myfyriwr.



**Ymweliad Comisiynydd y Gymraeg**
**â'r Senedd Gwrth-Hiliaeth**

**Sesiynau Adolygu Mathemateg i Flwyddyn 11:** I adeiladu ar lwyddiant arholiad Rhifedd y garfan hon, mae sesiynau adolygu yn cael eu cynnal bob prynhawn Mercher 3 - 4pm i bawb yn Bl11. Mae'n ofynnol i'ch plentyn ddod i'r sesiynau adolygu wythnosol (8 i gyd) ar gyfer paratoi am yr arholiadau TGAU Mathemateg eleni. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi a'ch plentyn tuag eu llwyddiant. *Bydd dosbarthiadau Mr Williams a Ms Lake yn adolygu ar brynhawn Mawrth - mae eich plentyn wedi derbyn y wybodaeth.*

**Llongyfarchiadau:** i dimau gymnasteg yr ysgol am gynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Ysgolion Prydain - daeth tîm Dan 13 yn 1af a'r tîm Dan 19 yn 2il; i dîm pêl-droed merched dan 18 Glantaf am gyrraedd rownd derfynol Cwpan Cymru yn erbyn Ysgol Glan Clwyd ar 25 Mawrth; i Freya Hughes a Meg Llywelyn o fl 7 am ddod yn 2il yn eu cystadlaethau yn Eisteddfod Sir Dawns yr Urdd.

**I gloi**: Cofiwch wisgo sanau lliwgar ar **20 Mawrth** sef Dydd Ymwybyddiaeth Syndrom Down – bydd stondin cacennau gan y Ganolfan yn ystod amser egwyl yn y Cyntedd. I'r rhai hynny sy'n teithio i'r ysgol ar fws 806, cofiwch y bydd y bws yn cyrraedd yr ysgol erbyn 8:20 bob bore o **28 Ebrill**.



**Taith Liddington – 100 o ferched Bl 7 ac 8**

**Digwyddiadau i ddod**

| | |
|---|---|
| **17 Mawrth** | Adroddiadau Llawn Bl11 |
| **17&18 Mawrth** | Taith Preswyl Pentre Ifan (Bl9) / Arholiad Graffeg (Bl11) |
| **20 Mawrth** | Dydd Ymwybyddiaeth Syndrom Down / Brechiadau HPV / Taith Seicoleg Bl 12 + 13 |
| **21 Mawrth** | **HMS (dim ysgol)** |
| **24-27 Mawrth** | Rygbi 7 bob ochr Parc Rosslyn |
| **24 Mawrth** | Noson Opsiynau Bl8 (Teams @5pm Cyfrwng Cymraeg) |
| **24-25 Mawrth** | Arholiad Ffotograffiaeth (Bl11) |
| **26 Mawrth** | Eisteddfod Sir yr Urdd (Rhagbrofion) |

| | |
|---|---|
| **27 Mawrth** | Opsiynau Bl 8: Noson Agored 5pm - 7pm |
| **27-28 Mawrth** | Arholiad Celf 3D (Bl11) |
| **28 Mawrth** | Eisteddfod Sir yr Urdd |
| **31 Mawrth** | Eid ul Fitr / Adroddiadau Interim Bl 7-13 |
| **31 Mawrth & 1 Ebrill** | Arholiad Celf (Bl11) |
| **3 Ebrill** | Noson Rhieni Bl8: 3.15pm - 6.30pm |
| **4 Ebrill** | Arholiad Llafar Llenyddiaeth Gymraeg “Y Gwyll” (Bl11) |
| **11 Ebrill** | **Diwedd tymor** |

Yn gywir,

Owain Siôn Williams
Pennaeth Cynorthwyol
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf